Cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau, nos Fawrth 1 Mai 2018 am 7.30pm.
Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: y Cynghorwyr: Marged Bowen (Cadeirydd), John Williams, Nigel Lovatt, Janine Roberts, Rhys Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc).
Ymddiheuriadau: Pauline George.
Ni nodwyd unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion sy'n codi.
Cynhaliwyd Cyfarfod Safle yn y Cae Cymunedol ar 10 Ebrill 2018. Yn bresennol yr oedd: Marged Bowen, John Williams, Janine Roberts, Nigel Lovatt, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Fel y cytunwyd, roedd y Cyng. Sir Joseph Davies wedi cysylltu â Gareth Howells o Gyngor Sir Caerfyrddin, a fyddai'n adrodd yn ôl wedi iddo siarad â'r Adran Addysg.
Rheoli Traffig. Roedd neges e-bost gan Gyngor Sir Caerfyrddin wedi dod i law yn gofyn am gyfarfod safle ar ddydd Gwener 18 Mai 2018 am 3pm. Roedd y cynghorwyr yn cytuno y byddai hynny'n gyfleus, ac y dylent gwrdd wrth fynedfa Ystad Maesycelyn.
Y Bwrdd Claddu mewn perthynas â phrynu tir. Trafodwyd neges e-bost gan Un Llais Cymru. Cytunwyd y dylai'r Clerc wneud ymholiadau gyda'r Sefydliad ar gyfer Rheoli Mynwentydd ac Amlosgfeydd (ICCM) ynghylch Aelodaeth.
Roedd glaswellt y fynwent wedi cael ei dorri. Daeth y prawf diweddaraf am yr Yswiriant i law gan y Contractiwr.
Roedd glaswellt y Cae Cymunedol wedi cael ei dorri. Daeth y prawf diweddaraf am yr Yswiriant i law gan y Contractiwr.
Archwilydd Cyffredinol Cymru. Daeth hysbysiad i law i hysbysebu'r archwiliad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Y Ffurflen Dreth Flynyddol i'w llenwi a'i dychwelyd erbyn 18 Mehefin 2018 i Grant Thornton UK LLP. Caerdydd. Hysbysiad Pennu Dyddiad ar gyfer Gweithredu Hawliau Etholwyr i'w arddangos erbyn 03 Mai 2018. Y dyddiad cau statudol ar gyfer cymeradwyo'r Ffurflen Dreth Flynyddol oedd 30 Mehefin 2018.
Rhestr Asesiadau Risg. Cytunwyd i wneud y diwygiadau canlynol:
Ffioedd – Mynwent. Y Clerc i roi arian yn y banc o fewn pum niwrnod gwaith wedi iddo ddod i law.
Cronfeydd Wrth Gefn – Cyffredinol. Cronfeydd Wrth Gefn – Wedi'u Clustnodi. I'w dileu gan nad ydynt yn berthnasol mwyach.
Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch. Gwiriadau Iechyd a Diogelwch i'w cynnal yn flynyddol gan y Cynghorwyr. Copi diwygiedig i gael ei anfon at yr holl Gynghorwyr.
Yr eitemau canlynol i'w rhoi ar yr Agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. Rheoliadau Ariannol ac Archebion Sefydlog. Copïau i gael eu hanfon at yr holl Gynghorwyr ymlaen llaw er mwyn iddynt eu hastudio.
Costau'r Cadeirydd. Cytunwyd ar y swm o £193.25.
Ethol Cadeirydd Newydd. Diolchodd Marged Bowen, y Cadeirydd ymadawol, i'r Cyng. Sir Joseph Davies, i'r Clerc, Jane Morgan, ac i'w chyd-gynghorwyr am eu holl gymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd pawb yn cytuno y dylai John Williams gael ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Wrth ymgymryd â rôl y Cadeirydd, diolchodd John Williams i Marged Bowen am yr holl waith da yr oedd hi wedi ei wneud yn ystod y 12 mis diwethaf.
Ethol Is-gadeirydd. Cytunwyd y dylid ethol Janine Roberts.
Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:
Sarah Walters, y Clerc Claddu, costau o £10.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi £31.20.
Trywydd, am waith cyfieithu misoedd Ionawr a Chwefror £84.86. Trywydd, am waith cyfieithu mis Mawrth £37.30.
Mr P. Knott. Cost gwasanaethu a chynnal a chadw dwy wefan – talley.org.uk a talyllychau.org.uk £90.00.
Cyngor Sir Gâr Ynghylch: tâl ar gyfer Etholiadau'r Cyngor Cymuned, a gynhaliwyd yn 2017 £192.80.
Hysbysiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin am y Praesept o £2,666.66 a ddaeth i law 26.04.2018.
Cafodd yr ohebiaeth ganlynol ei dosbarthu a'i thrafod.
Enwebu Is-gynrychiolydd i'r Awdurdod. Roedd yna swydd wag o hyd ar gyfer Is-gynrychiolydd yr Awdurdod ar Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Talyllychau.
Hywel Dda – Trawsnewid Ein Gwasanaeth Iechyd – Digwyddiadau Galw Heibio. Hysbysiad o ddigwyddiadau Galw Heibio anffurfiol ynghylch y cynigion ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Posteri i'w gosod yn yr Hysbysfyrddau ac ar y Wefan.
Roedd Bobath yn dathlu 25 mlynedd ac yn gofyn am gymorth. I'w drafod ar ddiwedd y flwyddyn.
Un Llais Cymru. Hysbysiad o Bwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin, i'w gynnal ar 09.05.2018 yn yr Hen Ficerdy, Sgwâr Neuadd y Dref, Llanelli am 7pm.
Llythyr gan Un Llais Cymru yn nodi bod y Cyngor wedi dychwelyd y ffurflen aelodaeth ac yn gofyn am fanylion y cynrychiolwyr. Cytunwyd i anfon manylion y Cadeirydd ymlaen.
Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad. Llythyr gan Gyngor Sir Gâr yn rhoi gwybod am Hyfforddiant i'w gynnal ym mhrif Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, ddydd Mawrth 14 Mehefin a dydd Mawrth 26 Mehefin, rhwng 6pm ac 8pm. Dywedwyd y byddai'r Clerc a dau Gynghorydd yn bresennol ar 14 Mehefin.
Llythyr gan Gyngor Sir Gâr Ynghylch: Deddf Trwyddedu 2003. Deddf Hapchwarae 2005.
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch Newidiadau Pwysig o ran y ffordd yr ydych yn gwneud eich hawliad TAW126. Trafodwyd hawliad TAW 01.04.207-31.03.2018.
Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).
Cafodd yr holl ohebiaeth a ddaeth i law ei hanfon ymlaen at yr holl Gynghorwyr cyn y cyfarfod.
Trafodwyd y 12 o gamau y dylid eu cymryd 'nawr. Byddai yna drafodaeth bellach yn y cyfarfod ym mis Mehefin.
Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 10.25pm. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 5 Mehefin 2018, am 7.30pm.